

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyllid

**Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd**  
**(Cymru)**

Medi 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565  
E-bost: [SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)  
Twitter: [@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyllid

**Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd**  
**(Cymru)**

Medi 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd ar gyfer goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**

Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**

Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Mike Hedges**

Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**

Plaid Cymru  
Arfon



**Ann Jones**

Llafur Cymru  
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**

Llafur Cymru  
Gogledd Caerdydd



**Nick Ramsay**

Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy

---

## Cynnwys

---

Argymhellion y Pwyllgor .....	5
1. Cefndir a Throsolwg .....	6
2. Crynodeb o gostau a manteision ychwanegol y Bil.....	8
3. Goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r cynigion ynghylch e- sigarêts.....	12
4. Goblygiadau ariannol sy'n deillio o gyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin .....	15
5. Goblygiadau ariannol sy'n deillio o gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig, ac o wahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed.....	17
6. Goblygiadau ariannol disodli'r system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol â system sy'n seiliedig ar anghenion .....	21
7. Costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth.....	24
Atodiad - Tystion.....	26



## Argymhellion y Pwyllgor

---

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid newid y tabl cryno sy'n dangos y costau a'r manteision yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil hwn, i ddangos tablau ar wahân ar gyfer costau a manteision y pennwyd gwerth ariannol iddynt. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno costau a manteision yn y modd hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gan y credwn fod y dull hwn yn ddryslyd ac yn anfwriadol gamarweiniol. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am gostau a manteision mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth yn nodi faint o arian a godwyd gan bob awdurdod lleol trwy incwm hysbysiadau cosb benodedig i dalu ei gostau gorfodi, a'r costau gorfodi a wynebir gan awdurdodau lleol wrth weithredu'r polisi hwn. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi'n eglur a yw'r dyfarniad yn achos Hemming v San Steffan yn effeithio ar rannau eraill o'r Bil lle y bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd â gweithgareddau gorfodi, a rhoi manylion am unrhyw effaith ariannol ar y rhannau hyn o'r Bil. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi'n eglur a fydd y fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei llunio ar sail cynllun 'math A' neu 'fath B' fel y nodwyd yn achos Hemming v San Steffan. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed i amcangyfrif y manteision hyn, a rhoi gwybod a oedd hwn yn seiliedig ar unrhyw waith blaenorol a wnaed yn y maes hwn. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ar gyfer pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar gostau a manteision llawn Biliau. (Tudalen 25)

# 1. Cefndir a Throsolwg

---

1. Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ("y Bil") gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog") ar 8 Mehefin 2015.
2. Mae'r Memorandwm Esboniadol<sup>1</sup> yn rhoi manylion am brif ddibenion y Bil:

## *Tybaco a chynhyrchion nicotin*

- cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, er enghraifft sigarêts electronig, mewn manau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, gan sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau presennol o ran ysmegu;
- creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
- ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o Dan Gyfyngiad. (Mae Gorchymyn Mangre o Dan Gyfyngiad yn gwahardd gwerthu cynhyrchion tybaco o'r safle dan sylw);
- gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed.

## *Triniaethau arbennig*

- creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n darparu 'triniaethau arbennig', sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
- cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed.

## *Gwasanaethau fferyllol*

- newid y modd y mae Byrddau Iechyd yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar asesiadau o'r angen fferyllol yn eu hardaloedd.

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol ("Memorandwm Esboniadol") [www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10224-em/pri-ld10224-em-w.pdf](http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10224-em/pri-ld10224-em-w.pdf)



### *Darpariaeth toiledau*

- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol er mwyn darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd, a sicrhau mynediad atynt, yn seiliedig ar anghenion eu cymunedau.<sup>2</sup>

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cyflwyno amcangyfrif o'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil.

4. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil gan y Gweinidog ar 15 Gorffennaf 2015.

---

<sup>2</sup> Memorandwm Esboniadol

## 2. Crynodeb o gostau a manteision ychwanegol y Bil

---

### Cefndir

5. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob agwedd ar y Bil, ynghyd â chostau a manteision pob opsiwn ac asesiad o sut y mae'n cyflawni amcanion y Bil.

6. Gan ystyried y costau a'r manteision, bydd costau ychwanegol net y Bil i'r rhanddeiliaid amrywiol fel a ganlyn:

- Mannau cyhoeddus a gweithleoedd - £6.5 miliwn;
- Awdurdodau Lleol - £1.8 miliwn;
- Y diwydiant e-sigaréts - £1.3 miliwn;
- Byrddau Iechyd Lleol - £1.3 miliwn;
- Ymarferwyr a busnesau tatwio a thyllu'r corff - £944,600;
- Manwerthwyr tybaco - £406,800;
- Llywodraeth Cymru - £361,700;
- Contractwyr fferyllol - £220,500;
- Ymarferwyr tatwio a thyllu'r corff nad ydynt wedi'u cofrestru - £34,400; a
- Bydd manteision net gwerth £9.35 miliwn i'r cyhoedd.

7. Ar ôl ystyried holl gostau'r Bil ynghyd â'r manteision y gellir eu mesur, amcangyfrifir y bydd y Bil yn costio £3.6 miliwn ychwanegol rhwng 2016-17 a 2020-21.<sup>3</sup>

8. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod costau a manteision y Bil wedi eu cyfrifo yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

“Trwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, lle y ceir ansicrwydd, defnyddiwyd dull gofalus o asesu costau. Mae hyn yn debygol o olygu y gallai'r gwir gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth mewn sawl maes fod yn is. Mae hefyd yn debygol y bydd modd arbed mwy o arian os caiff

---

<sup>3</sup> Memorandwm Esboniadol

agweddau penodol ar y gwaith gweithredu ei gydgysylltu mewn gwahanol feysydd o'r Bil, er enghraifft os caiff sesiynau hyfforddi eu cyfuno ar gyfer nifer o bolisiau cysylltiedig.”<sup>4</sup>

### ***Methodoleg a chostau a manteision cyffredinol y Bil***

#### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

9. Dywedodd y Gweinidog mai'r costau a'r manteision a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r amcangyfrifon cyfredol gorau y gellid eu gwneud.<sup>5</sup>

10. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud fod y Bil wedi dechrau gyda Phapur Gwyrdd ac ymgynghoriad Papur Gwyn llawn, a bod y costau a'r manteision wedi bod yn rhan reolaidd iawn o'r drafodaeth gyfan honno.<sup>6</sup> Aeth y Gweinidog yn ei flaen:

“We follow the standard Treasury Green Book methodology in deriving the RIA costs and benefits. We've been able to draw on a variety of data sources to give greater confidence in the figures that we provide.”<sup>7</sup>

11. O ran y posibilrwydd o arbed mwy o arian pe byddai agweddau ar weithrediad y Bil yn cael eu cyfuno, dywedodd y Gweinidog bod cyfleoedd sylweddol iawn i leihau'r costau a sicrhau mwy o fanteision.<sup>8</sup> Aeth yn ei flaen:

“One of the ways in which we think costs can be reduced is by sharing effort amongst those who will be responsible for implementation of the Bill. So, there are training needs that are identified in different strands of the Bill; I think it's possible to combine those training needs and to deliver them in a way that would reduce costs. There are publicity and communication costs involved in the seven different strands. Again, I think it is possible to combine those in a way that will drive down costs.”<sup>9</sup>

12. Mae nifer o adrannau o'r Bil yn defnyddio'r gwerthoedd canol o fewn ystod eang o gostau a manteision posibl a allai ddod i ran

---

<sup>4</sup> Memorandwm Esboniadol

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 15 Gorffennaf 2015

<sup>6</sup> ibid

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 15 Gorffennaf 2015

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 15 Gorffennaf 2015

<sup>9</sup> ibid

busnesau a sefydliadau yn y sector cyhoeddus.<sup>10</sup> Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa mor gadarn oedd y ffigurau hyn. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y gallai'r sefydliadau hyn fod yn hyderus<sup>11</sup> oherwydd:

“where we have estimated costs for this Bill, we have pitched them at the higher end of what those costs will be, and, where we have identified benefits, we have pitched them at the lower end of where those benefits will be derived.”<sup>12</sup>

13. Yn ystod y broses o graffu ar oblygiadau ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), trafododd y Pwyllgor bryderon Archwilydd Cyffredinol Cymru (“yr Archwilydd Cyffredinol”) y gallai fod yn gamarweiniol dangos manteision â gwerth ariannol ochr yn ochr â chostau arian parod. Cododd y Pwyllgor bryderon tebyg gyda'r Gweinidog, a ddywedodd:

“...as a Government, we take very seriously the advice that we get from the auditor general. But I've thought about it quite a bit since we had the discussion that we had here, and, every time I go through it in my mind, I come back to the same belief that, actually, in this area, I think I don't agree with the auditor general's point of view. I think it is both standard practice, and, actually, helpful practice to people who are trying to understand the Bill to monetise both the costs and the benefits and to set them out in a way that allows people to make a more direct comparison than they otherwise would be able to do. It's not in any sense intended to mislead. I think it is intended to try and translate into terms that an interested layperson would be able to understand: how the cost that the Bill creates and the benefits that it drives out can be compared with one another and monetising them for that purpose is the way to create clarity.”<sup>13</sup>

### ***Ein barn ni***

14. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y costau, ac mae'n falch o weld y defnyddiwyd dull gofalus wrth asesu'r costau.

---

<sup>10</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 304

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 15 Gorffennaf 2015

<sup>12</sup> *ibid*

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 15 Gorffennaf 2015

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y gallai trefniadau cydweithredu ar rai agweddau ar y Bil arwain at y potensial i arbed arian.

15. Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos costau a manteision â gwerth ariannol ochr yn ochr â chostau arian parod. Mae'r Pwyllgor yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pennu gwerth ariannol y manteision sy'n gysylltiedig â'r Bil. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod potensial i gamarwain yn y modd y cyflwynir y costau a'r manteision â gwerth ariannol yn y Bil hwn, yn yr un modd ag y nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn achos y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid newid y tabl cryno sy'n dangos y costau a'r manteision yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil hwn, i ddangos tablau ar wahân ar gyfer costau a manteision y pennwyd gwerth ariannol iddynt.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno costau a manteision yn y modd hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gan y credwn fod y dull hwn yn ddryslyd ac yn anfwriadol gamarweiniol. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am gostau a manteision mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.**

### 3. Goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r cynigion ynghylch e-sigaréts

---

#### Cefndir

16. Mae'r adran hon o'r Bil yn cyfyngu ar y defnydd o dybaco a dyfeisiau mewnanadlu nicotin, fel sigaréts electronig, mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig.

17. Y rhan hon o'r Bil sydd â'r costau ychwanegol uchaf o blith holl elfennau'r Bil, sef £8.2 miliwn rhwng 2016-17 a 2020-21, ar ôl ystyried manteision posibl y Bil. Mannau cyhoeddus a gweithleoedd fydd yn talu £6.5 miliwn o'r costau hyn. Bydd angen iddynt ddiweddarau eu polisiau di-fwg a byddant yn wynebu cost yn gysylltiedig â cholli oriau gwaith gan fod angen i ddefnyddwyr e-sigaréts gymryd seibiannau er mwyn defnyddio eu dyfeisiau anweddu.<sup>14</sup>

18. At hynny, amcangyfrifir y bydd busnesau e-sigaréts yn colli gwerth tua £1.3 miliwn o'u gwerthiant yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau ychwanegol o £300,000 yn 2016-17 ar gyfer cyfathrebu â busnesau a'r cyhoedd (£200,000) ac arwyddion ar gyfer mannau di-fwg (£100,000). Bydd rhywfaint o gostau ychwanegol i'r cyhoedd ac awdurdodau lleol, sef £22,500 a £12,300 yn y drefn honno.<sup>15</sup>

19. Fodd bynnag, fe allai mannau cyhoeddus a gweithleoedd a'r diwydiant e-sigaréts wynebu amrywiaeth eang o gostau posibl. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn defnyddio'r ffigurau canolog, ond ni ellir dibynnu ar y rhain am fod y costau posibl yn amrywio cymaint. Amcangyfrifir y bydd cwmnïau e-sigaréts yn wynebu costau o rhwng £0 a £2.7 miliwn, a gallai mannau cyhoeddus a gweithleoedd wynebu costau o rhwng £1.8 miliwn ac £11.2 miliwn. O ychwanegu hynny at y gost i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r cyhoedd, mae'n golygu y gallai'r elfen hon o'r Bil arwain at gostau ychwanegol o rhwng £2.1 miliwn a £14.2 miliwn.<sup>16</sup>

---

<sup>14</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 304

<sup>15</sup> *ibid*

<sup>16</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 120

## ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

20. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a fyddai'n gwneud unrhyw waith gyda busnesau i leihau unrhyw gostau ychwanegol y gallent eu hwynebu o ganlyniad i ddiweddarau eu polisiau di-fwg. Dywedodd y Gweinidog fod y £2.4 miliwn yn cyfateb i:

“the cost of business familiarising themselves with and implementing the new law to bring e-cigarettes in line with conventional cigarettes. So, it's the cost of updating their policy. We work out that this will cost £15 for any public sector organisation, £26 for any large employer, and £10 for any SME in Wales, and that's the cash equivalent of the time it would take to update the policy.”<sup>17</sup>

21. Aeth y Gweinidog yn ei flaen:

“We are assuming here that policies are not updated for any other purpose. So, whereas you would expect that policies, very often, would be being updated in any case, we've taken the precautionary position that every organisation would have to update its policy as a result of the Act and that's what costs fall out of that.”<sup>18</sup>

22. Dywedodd swyddog y Gweinidog eu bod yn gallu ystyried y costau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth i wahardd tybaco confensiynol:

“we were able to look at the costs of the development of signage, the development of guidance, the training that was necessary, and the likely drop in the number of users in order to look at industry costs. So, we were able to take all of those into account in developing these [figures].”<sup>19</sup>

23. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y gost ychwanegol o £200,000 i Lywodraeth Cymru am gyfathrebu'r newid yn y gyfraith ym maes e-sigaréts i fusnesau a'r cyhoedd, eto yn seiliedig ar brofiad Llywodraeth Cymru o weithredu'r rheoliadau tybaco.<sup>20</sup> Dywedodd:

---

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 15 Gorffennaf 2015

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 15 Gorffennaf 2015

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 15 Gorffennaf 2015

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 15 Gorffennaf 2015

“We think that this will be a relatively simple thing to communicate, because the change is very straightforward and simple... We will rely on the existing ways in which changes in policy are communicated, through Welsh Government, local government, and social media and so on.

We include, within the costs, providing a poster to publicise the change, to be displayed in those places where the change will happen, in advance of the change. On top of the £200,000, we also have a budget line of £100,000, because we will provide, as we did when the law changed in relation to tobacco, signage free to all employers and in all public places where the new law will apply.”<sup>21</sup>

24. Mewn llythyr dilynol, dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw dystiolaeth y byddai'r cynnig i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn manau cyhoeddus dan do yn achosi i ddefnyddwyr e-sigaréts aildechrau ysmegu. Yn sgil yr ansicrwydd hyn, dywedodd y Gweinidog:

“the EM provides an illustrative example to explore the hypothetical health effect of e-cigarette users returning to tobacco smoking using a study which looks at the Quality Adjusted Life Years (QALYs) gained by every smoker who quits smoking long-term.”<sup>22</sup>

### ***Ein barn ni***

25. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod dull gofalus wedi'i ddefnyddio er mwyn pennu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â chyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, fel sigaréts electronig, mewn manau caeedig. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn anodd cadarnhau'r goblygiadau ariannol ac rydym yn falch bod y costau wedi eu seilio ar y rhai mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth i wahardd cynhyrchion tybaco confensiynol.

---

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 15 Gorffennaf 2015

<sup>22</sup> FIN(4)-18-15 P1 - Letter to the Chair of Finance Committee from Minister for Finance and Government Business



## 4. Gobygiadau ariannol sy'n deillio o gyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

---

### Cefndir

26. Mae'r elfen hon o'r Bil yn creu cofrestr genedlaethol y mae'n rhaid i fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin gael eu cofrestru arni. Ar gyfer manwerthwyr unigol, cynigir pennu ffi gofrestru o £30 am y safle cyntaf a £10 ar ben hynny am bob safle ychwanegol.

27. Yn yr ymatebion i'r cynigion a amlinellwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar lechyd y Cyhoedd yn 2014,<sup>23</sup> cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau ar oblygiadau ariannol posibl y polisi hwn, ond roedd y rhan fwyaf o blaid creu cofrestr.

28. Roedd sefydliadau'r GIG a sefydliadau gwrth-ysmygu, gan gynnwys Action on Smoking and Health (ASH) yr Alban, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn teimlo bod lefel y ffioedd cofrestru ar gyfer manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn rhesymol ac yn gymesur.<sup>24</sup>

29. Pe byddai un awdurdod lleol yn arwain y gwaith o gynnal y gofrestr, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhagweld y gellid arbed £64,000 rhwng 2016-17 a 2020-21 yn yr awdurdodau lleol i gyd.<sup>25</sup>

30. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o gostau gorfodi'r awdurdodau lleol. Yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mehefin 2015,<sup>26</sup> dywedodd y Gweinidog y bydd incwm y ffioedd yn talu'n rhannol am gostau gorfodi'r gofrestr. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o'r costau i awdurdodau lleol yng nghyswllt gorfodi'r gofrestr drwy ymchwilio i fanwerthwyr nad ydynt

---

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd <http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/white-paper/?status=closed&lang=cy>

<sup>24</sup> Ymatebion gan Action on Smoking and Health (ASH) Yr Alban, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf <http://gov.wales/docs/phhs/consultation/141104phwhitepaperresponses01en.pdf>

<sup>25</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 139

<sup>26</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 9 Mehefin, 2015 <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3169&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings#223918>

wedi'u cofrestru, ond mae'n nodi na fydd rhai manwerthwyr yn cofrestru o bosibl.

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

31. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r ffi gofrestru a fyddai'n cael ei chodi wrth greu cofrestr manwerthwyr tybaco yn creu llif incwm ar gyfer awdurdodau lleol, i'w galluogi i wneud iawn, yn llawn, am gostau creu, gweinyddu a chynnal y gofrestr.<sup>27</sup>

32. Nid oedd y Gweinidog o'r farn y byddai'r ffi arfaethedig o £30 yn faich mawr ar fusnesau ond y byddai, o roi'r holl ffioedd at ei gilydd, yn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.<sup>28</sup>

33. Dywedodd y byddai'r arian a gâi ei godi trwy'r ffi gofrestru yn cael ei ddefnyddio i gynnal y gofrestr ac na ellid ei ddefnyddio ar gyfer gorfodi. Fodd bynnag, ychwanegodd y byddai awdurdodau lleol yn gallu defnyddio incwm o hysbysiadau cosb benodedig i gynorthwyo â'r gwaith gorfodi.<sup>29</sup> Aeth yn ei flaen:

"I think the fact of having a register will reduce enforcement costs in duties that local authorities already have in this area."<sup>30</sup>

### ***Ein barn ni***

34. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y ffi gofrestru a gynigir ar gyfer manwerthwyr unigol, sef £30 am y safle cyntaf a £10 ar ben hynny am bob safle ychwanegol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ymrwmo i gyhoeddi gwybodaeth yn nodi faint o arian a godwyd gan bob awdurdod lleol trwy incwm hysbysiadau cosb benodedig i dalu ei gostau gorfodi, a'r costau gorfodi a wynebir gan awdurdodau lleol wrth weithredu'r polisi hwn.**

---

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 15 Gorffennaf 2015

<sup>28</sup> *ibid*

<sup>29</sup> *ibid*

<sup>30</sup> *ibid*

## **5. Goblygiadau ariannol sy'n deillio o gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig, ac o wahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed**

---

### **Cefndir**

35. Mae'r adran hon o'r Bil yn cyflwyno deddfwriaeth i greu system drwyddedu orfodol, genedlaethol ar gyfer cynnal triniaethau arbennig yng Nghymru. Byddai'r triniaethau arbennig hyn yn cael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

36. Er mwyn cynnal unrhyw un o'r triniaethau arbennig hyn, byddai angen i unigolyn fod wedi'i drwyddedu ac i'r safle y mae'n ymarfer ynddo gael ei gymeradwyo. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am sgrinio ymarferwyr ac arolygu safleoedd i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf penodol cyn y gellid dyfarnu trwydded neu gymeradwyo safle.<sup>31</sup>

37. Yr elfen hon o'r Bil sydd â'r costau ychwanegol uchaf ond un o blith holl rannau'r Bil, sef £1.6 miliwn yn ystod y cyfnod rhwng 2016-17 a 2020-21. Ar y cyfan, caiff y costau hyn eu rhannu rhwng awdurdodau lleol (£780,000) ac ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru a rhai nad ydynt wedi'u cofrestru (£760,000).<sup>32</sup>

38. Bydd y costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol yn cynnwys y rhai am rwystro gwaith sydd heb ei drwyddedu, cyhoeddi Hysbysiadau Camau Adfer i safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded a chostau cyffredinol eraill. Yn ôl yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, bydd yr incwm a gynhyrchir gan ymarferwyr triniaethau arbennig cofrestredig yn talu am y costau cofrestru a'r costau yn sgil adnewyddu trwyddedau.<sup>33</sup>

39. Bydd y costau ychwanegol i ymarferwyr yn cynnwys y rhai am ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, costau cofrestru a chostau cyfle yng nghyswllt gwneud cais am drwydded. Ceir costau ychwanegol am fynd yn groes i Hysbysiadau Camau Adfer hefyd, sy'n arwain at

---

<sup>31</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 184

<sup>32</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 305

<sup>33</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalennau 188-190

ddirwy, ac i'r nifer fach o ymarferwyr nad ydynt wedi'u cofrestru a fyddai'n cael hysbysiad i'w hatal rhag rhoi triniaethau arbennig.<sup>34</sup>

40. Byddai Llywodraeth Cymru yn wynebu costau o ychydig yn llai na £60,000 am ddatblygu a dosbarthu canllawiau, cynnal sesiynau hyfforddi i swyddogion iechyd yr amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth.<sup>35</sup>

### ***Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed***

41. Mae'r elfen hon o'r Bil yn golygu costau ychwanegol o ychydig dros £500,000 dros y pum mlynedd rhwng 2016-17 a 2020-21. Bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo costau ychwanegol o £265,000 yn ystod y cyfnod hwn am gostau staff i gefnogi busnesau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. At hynny, bydd ymarferwyr yn ysgwyddo costau o ychydig o dan £220,000 yn sgil colli busnes ac ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, ac yn sgil dirwyon i'r nifer fach o fusnesau y canfyddir eu bod yn rhoi triniaethau sydd wedi'u gwahardd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau o tua £20,000 am ganllawiau, hyfforddiant a chyfathrebu.<sup>36</sup>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

42. Mae adran 61 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gadw cofrestr yn cynnwys manylion am yr holl drwyddedau a gyhoeddir ganddo ar gyfer triniaethau arbennig. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut y byddai'n ymateb i bryderon a fynegwyd mewn ymatebion i'r Papur Gwyn ar lechyd y Cyhoedd y gallai'r adnoddau sydd eu hangen i orfodi'r gofrestr triniaethau arbennig ddargyfeirio cyllid awdurdodau lleol oddi wrth wasanaethau eraill â blaenoriaeth. Dywedodd y Gweinidog:

“this is one of the places where we will need to update the information provided in the EM because—and this is all very detailed—when we were producing the original explanatory memorandum, the case of *Hemming v. Westminster City Council*, which is the test case in this field...

---

<sup>34</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalennau 188-190

<sup>35</sup> *ibid*

<sup>36</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 188

“... had gone to the appeal court, and the appeal court had concluded that it was not legal for a local authority to recover, in the fee that the registrant was required to pay, the cost of enforcing those people who did not register. So, the costs that we set out here are assumed on that basis: that local authorities would not be able to charge fees that would cover the cost of enforcement. That case has now gone to the Supreme Court, and the Supreme Court has overturned the position set out in the Court of Appeal, and the position, which is now the final position, is that local authorities can include in the cost of registering an element to cover their costs of enforcing the register.”<sup>37</sup>

43. Cododd y Pwyllgor bryderon gyda’r Gweinidog ynghylch y fiwrocratiaeth ddiangen a allai gael ei chreu gan y cynllun cofrestru triniaethau arbennig, gan effeithio’n anghymesur ar fusnesau bach ac arwain at drosglwyddo cost cofrestru i’r cwsmeriaid.

44. Dywedodd y Gweinidog, mewn ymateb i hyn:

“There may be some marginal costs that will be passed on to the user... I think that’s not an unfair cost for that person to bear, in knowing that the service that they will now be getting will be one that will not be injurious to their health.”<sup>38</sup>

45. Aeth y Gweinidog yn ei flaen:

“It will be for local authorities to set the fee themselves, and that’s quite important because the nature of the industry varies a great deal between one part of Wales and another. It won’t be in local authorities’ interests to set fees at a level that turns off the income stream that they will be generating otherwise...”<sup>39</sup>

### ***Ein barn ni***

46. Ym marn y Pwyllgor, mae angen egluro datganiad y Gweinidog ynghylch achos Hemming v San Steffan, gan fod y Pwyllgor yn deall nad yw’r penderfyniad yn yr achos hwn wedi datrys yn llawn y mater o ran codi tâl am orfodi cynllun cofrestru. Mae’r Pwyllgor yn nodi y gofynnwyd i’r Goruchaf Lys ystyried a oedd cynllun trwyddedu sy’n ei

---

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 141 a 143, 15 Gorffennaf 2015

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 15 Gorffennaf 2015

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 15 Gorffennaf 2015

gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded dalu ffi ag iddi ddwy ran—sef un rhan yn ymwneud â gweinyddu'r cais, na ellir ei had-dalu, a rhan (fwy) arall yn ymwneud â rheoli'r cynllun, y gellir ei had-dalu pe bai'r cais yn cael ei wrthod—yn gyfreithlon yn unol â chyfraith ddomestig a chyfraith Ewrop.

47. Mae'r Pwyllgor yn nodi i'r Llys ystyried ddwy senario bosibl wrth ddod i benderfyniad:

- “cynllun math A” pan fo awdurdod lleol yn codi tâl ar ymgeisydd, pan fo'n gwneud cais am gofrestrriad, am y gost o wneud y cais ac yna'n codi ffi ychwanegol ar ymgeisydd llwyddiannus i dalu'r gost o reoli a gorfodi'r cynllun;
- “cynllun math B” pan godir ffi am gostau rheoli a gorfodi'r cynllun ar adeg gwneud y cais, a chaiff y costau hynny eu had-dalu i ymgeiswyr aflwyddiannus.

48. Dyfarnodd y Goruchaf Lys fod cynllun math A yn ganiataol o dan gyfraith ddomestig a chyfraith Ewrop. Fodd bynnag, o ran cynllun math B, roedd y Llys o'r farn y dylid cyfeirio'r mater at Lys Cyfiawnder Ewrop gyda'r nod o gadarnhau a oedd cynllun o'r fath yn gyson â chyfraith Ewrop.

49. Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Gweinidog wedi dweud y bydd y costau a wynebwr gan awdurdodau lleol yn sgil y rhan hon o'r Bil yn lleihau o ganlyniad i'r apêl yn achos Hemming v San Steffan,<sup>40</sup> ac y bydd yn diweddarau'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu'r newidiadau i'r costau hyn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi'n eglur a yw'r dyfarniad yn achos Hemming v San Steffan yn effeithio ar rannau eraill o'r Bil lle y bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd â gweithgareddau gorfodi, a rhoi manylion am unrhyw effaith ariannol ar y rhannau hyn o'r Bil.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi'n eglur a fydd y fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei llunio ar sail cynllun 'math A' neu 'fath B' fel y nodwyd yn achos Hemming v San Steffan.**

---

<sup>40</sup> Y Goruchaf Lys, R (on the application of Hemming (t/a Simply Pleasure Ltd and others) (Respondents) v Westminster City Council (Appellant))

## **6. Goblygiadau ariannol disodli'r system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol â system sy'n seiliedig ar anghenion**

---

### **Cefndir**

50. Bydd yr adran hon o'r Bil yn cyflwyno system sy'n seiliedig ar anghenion yn lle'r system bresennol, ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol. Bydd y system newydd yn defnyddio Asesiadau o Anghenion Fferyllol ac yn cyflwyno trefn rheoli perfformiad i'w gwneud yn bosibl cymryd camau i fynd i'r afael â darparwyr nad yw eu perfformiad yn ddigonol, gan gynnwys trefn ymadael.<sup>41</sup>

51. Bydd costau ychwanegol o £1.3 miliwn i Fyrddau Iechyd Lleol a chostau ychwanegol o £220,000 i gontractwyr fferyllol rhwng 2016-17 a 2020-21. Er hynny, yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd manteision gwerth £9.4 miliwn i'r cyhoedd o ran iechyd ac amser teithio yn mwy na chyfiawnhau'r costau hynny. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn arbed £76,000 oherwydd y bydd costau apeliadau i Weinidogion Cymru gan fferyllfeydd yn lleihau, gan fwy na chyfiawnhau costau paratoi canllawiau.<sup>42</sup>

52. Mae'r costau ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol wedi'u seilio ar gostau cynnal Asesiadau o Anghenion Fferyllol, comisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion fferyllol a rheoli contractwyr fferyllol nad yw eu perfformiad yn ddigonol. Bydd contractwyr fferyllol yn ysgwyddo costau am ddarparu gwybodaeth i alluogi Byrddau Iechyd Lleol i asesu eu perfformiad, ac am ymateb i gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.<sup>43</sup>

53. Mae'r manteision o ran amser teithio wedi'u seilio ar yr amcangyfrifon o'r pellteroedd byrrach y bydd angen eu teithio i fferyllfeydd, o ganlyniad i ddarpariaeth well a'r ffaith y ceir fferyllfeydd newydd mewn ardaloedd lle nad yw'r galw'n cael ei fodloni ar hyn o bryd. Yr amcangyfrif yw £425,000 y flwyddyn rhwng 2018-19 a 2020-21, sef manteision gwerth cyfanswm o ychydig yn llai nag £1.3 miliwn yn ystod y cyfnod hwn.<sup>44</sup>

---

<sup>41</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 209

<sup>42</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 220

<sup>43</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 222

<sup>44</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 225

## *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

54. Trafododd y Pwyllgor gyda'r Gweinidog a fyddai angen adolygu'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth gymunedol y GIG. Meddai'r Gweinidog:

“They are arguing, as, believe me, any particular strand in the health service will always argue, for their particular bit to be ringfenced, and therefore to be protected against any other use that could be made of it. In practice, without a ring fence, we see that there are health boards in Wales that have already gone much further in securing local discretionary services that health boards can choose to finance or not. So, in Betsi Cadwaladr, for example, we have the best smoking cessation services provided by pharmacies anywhere in Wales, and they will argue that they have done that by moving money to promote smoking cessation in pharmacies, because it is the most effective way that we have of persuading people to give up smoking. So, they've moved resource around in order to fund services in pharmacies, and have done so successfully. I think that that is a better model to use rather than ring-fencing small amounts of money, with all the bureaucratic costs that go with policing that.”<sup>45</sup>

55. Nododd y Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol yn dweud na fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn wynebu costau ychwanegol, a gofynnodd i'r Gweinidog sut y daeth i'r casgliad hwnnw. Dywedodd y Gweinidog:

“I come to that conclusion, Chair, in this way: Public Health Wales is a wholly-owned subsidiary of the Welsh Government. My priorities are its priorities, and, if this is my priority, it's their priority as well. I was not impressed by their suggestion that I would have to find extra funding for them. They don't carry out pharmaceutical needs assessments for a start; it's local health boards that do that. I understand that they advise in the process. We provide them with more than £85 million a year to discharge their obligations. They will have to find this very marginal amount of money from that rather large sum.”<sup>46</sup>

---

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 156, 15 Gorffennaf 2015

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 15 Gorffennaf 2015



56. Dywedodd y Gweinidog fod rhwydwaith eang o fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru—mwy na 700 ohonynt. Dywedodd y gallai'r Bil arwain at agor mwy o fferyllfeydd, ond mai'r uchelgais go iawn yw cael y system bresennol i wneud mwy, fel gwasanaethau i gynorthwyo pobl i roi'r gorau i ysmegu, brechiad rhag y fflw, y bilsen bore wedyn a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.<sup>47</sup>

57. Aeth y Gweinidog yn ei flaen:

“...what the Bill says is, first of all, you go to the pharmacy that’s already there and you try and persuade them to provide these additional services that they’re not providing at the moment. If they’re not able or not willing to do that, then the health board would be able to secure new entrants into the system to provide services that a pharmaceutical needs assessment would have established are needed for that community.”<sup>48</sup>

58. O safbwynt manteision ariannol y ddarpariaeth hon, dywedodd y Gweinidog:

“There are only two places where we say there are cashable benefits in this part of the system, and I think we could have argued that there are more. But, if more pharmacies are providing more services locally, then people will have to travel shorter distances in order to access those services.”<sup>49</sup>

### ***Ein barn ni***

59. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Gweinidog wedi nodi manteision ariannol gan gynnwys llai o amser teithio i bobl sy'n cael gafael ar wasanaethau mewn fferyllfeydd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y manteision ariannol hyn yn ddiarwyddocâd ac yn anodd eu cadarnhau.

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed i amcangyfrif y manteision hyn, a rhoi gwybod a oedd hwn yn seiliedig ar unrhyw waith blaenorol a wnaed yn y maes hwn.**

---

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 15 Gorffennaf 2015

<sup>48</sup> *ibid*

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 167, 15 Gorffennaf 2015

## 7. Costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth

---

### Cefndir

60. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn cynnwys costau a manteision is-ddeddfwriaeth.

61. Mae'n anodd canfod union gostau a manteision y Bil heb fanylion yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, yn enwedig mewn achosion lle y ceir llawer o is-ddeddfwriaeth.

62. Bu'r Pwyllgor yn ddiweddar yn ystyried goblygiadau ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a oedd yn darparu amcangyfrifon o'r costau i Lywodraeth Cymru am ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Bil hwn yn gwneud hynny.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

63. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi atodi'r weithdrefn gadarnhaol at y rhannau hynny o'r Bil lle y mae'n barnu y gallai pwerau is-ddeddfwriaeth arwain at gostau a manteision. Dywedodd:

“That will mean that the Government will have to produce a sort of mini RIA against every one of those things, and they will have to be consulted upon. We will learn things, we believe, during Stage 1 scrutiny of the Bill, which will assist us in that.”<sup>50</sup>

64. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi dweud wrth y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol mai'r un maes lle y gallai is-ddeddfwriaeth fod yn arwyddocaol yw unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i ymestyn y manau lle na chaniateir ysmegu tybaco ac e-sigaréts, er enghraifft tir ysbytai ac ardaloedd chwarae i blant. Dywedodd:

“We will produce the draft regulations before the end of Stage 1, so Members will be able to see how we intend to do that. Where those costs become more apparent as a result of Stage 1 proceedings, we will amend the explanatory memorandum after Stage 2 and we will take account of subordinate legislation costs more fully at that stage.”<sup>51</sup>

---

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 15 Gorffennaf 2015

<sup>51</sup> *ibid*

### ***Ein barn ni***

65. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn darparu amcangyfrifon ar gyfer datblygu is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, yn achos y Bil hwn, ni ddarparwyd unrhyw amcangyfrifon ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ac mae'n annhebygol y byddant ar gael tan i'r Memorandwm Esboniadol gael ei ddiwygio erbyn diwedd Cyfnod 2.

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ar gyfer pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar gostau a manteision llawn Biliau.**

## Atodiad - Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn dystiolaeth lafar yma:

[www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1243](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1243)

### *Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2015*

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Mark Drakeford AC	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Sue Bowker	Pennaeth y Gangen Polisi Tybaco, Llywodraeth Cymru
Chris Tudor-Smith	Uwch-swyddog Cyfrifol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), Llywodraeth Cymru